Mae’r ddogfen yma ar gael yn Saesneg This document is available in English

Adroddiad ar effaith bosibl cau cwrs golff Llangefni ar gyfleoedd chwarae - ardal Llangefni

1.0 Mae Adran 11 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau bod figon o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardal. “Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae” yw'r Canllawiau Statudol y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol eu dilyn i gydymffurfio â'r ddyletswydd i asesu a oes digon o gyfleoedd chwarae a sut i sicrhau’r cyfleoedd hynny.

1.1 Pwysleisiodd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a gwblhawyd ym mis Mawrth 2019 gydnabyddiaeth yr Awdurdod Lleol o werth a phwysigrwydd chwarae ym mywydau plant.

“Bod pob plentyn a pherson ifanc ar Ynys Môn yn gallu cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol o’u dewis a’u mwynhau er mwyn gwella eu lles corfforol ac emosiynol. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi teuluoedd a chymunedau i sicrhau bod yr holl wasanaethau'n cyfrannu at wella bywydau plant a phobl ifanc”.

1.2 Wrth werthuso unrhyw werthiant arfaethedig y clwb golff fel man agored, rhoddwyd ystyriaeth i’r canlynol er mwyn gwerthuso'r effaith ar gyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae yn yr ardal gyfagos ac yn Ynys Môn fel sir.

1.3 Y lleoedd agored presennol yn Llangefni. Cwblhaodd yr awdurdod lleol Asesiad o Fannau Agored yn 2015 a ddaeth i’r casgliad bod gan Langefni ar y pryd fwy na digon o fannau chwarae agored, yn amrywio o gaeau, cyfleusterau awyr agored ac ardaloedd chwarae - 19 lle i gyd. Diweddarwyd yr asesiad ac mae'n parhau i gadarnhau bod mwy na digon o fannau agored ar gyfer Llangefni i fodloni gofynion y plant a'r bobl ifanc yn yr ardal honno.

1.4 Ers 2015 bu datblygiadau sylweddol sydd wedi gwella mwy ar gyfleusterau chwarae i blant a phobl ifanc yn ardal Llangefni; ailddatblygu'r Parc Chwaraeon Trefol gydag offer campfa allanol, ychwanegol a datblygu Cae 3G ar yr un safle.

1.5 Mae Môn Actif, gwasanaeth a ddarperir gan adran Hamdden yr Awdurdod, hefyd wedi ymestyn ei wasanaethau i fwy o ysgolion ac mae’n ymweld ag ysgolion yn rheolaidd ac yn eu cefnogi i gyflwyno ystod o weithgareddau hamdden a chwarae awyr agored i blant, gan eu cyfeirio at glybiau a gweithgareddau awyr agored sydd ar gael yn eu hardal.

1.6 Nid yw cau’r cwrs golff i’w weld yn cael effaith ar unrhyw grŵp penodol o blant neu bobl ifanc ag anghenion diwylliannol, iaith, amrywiol, anghenion ychwanegol.

1.7 Ni nododd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a gwblhawyd ym mis Mawrth 2019 fod Llangefni yn ardal lle'r oedd y ddarpariaeth yn annigonol ac, o'r herwydd, nid oedd yn cyfiawnhau unrhyw ddatblygiadau penodol.

Casgliad

O gofio bod mwy na digon o fannau agored ar gael yn ardal Llangefni, a'r datblygiadau a'r gwasanaethau newydd ychwanegol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ni fyddai unrhyw werthiant arfaethedig o'r clwb golff yn cael effaith andwyol ar hawliau'r plant a'r bobl ifanc i gael cyfleoedd i chwarae yn yr ardal hon

Bethan Hywel Jones,

Rheolwr yr Uned Cefnogi Teuluoedd sy'n gyfrifol am yr asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae.

13/01/20